# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas y Don**

**Cartref Preswyl Plas y Don**
**Bro Heli**
**Pwllheli**
**LL53 5BD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas y Don

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Ebrill 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir yn y gwasanaeth yn fawr. Maent yn fodlon ar y dewisiadau y gallant eu gwneud o ddydd i ddydd ac maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Caiff y bobl gyfleoedd i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'r ffordd yr hoffent gael eu cefnogi a chaiff eu safbwyntiau eu cofnodi yn eu cynlluniau personol unigol. Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r gwasanaeth yn buddsoddi yn yr adeilad er mwyn sicrhau ei fod yn le cyfforddus i'r bobl fyw ynddo o hyd. Mae'r gweithwyr gofal yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Mae trefniadau da ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Caiff y bobl eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'r gwaith parhaus o ddatblygu'r gwasanaeth.

Mae angen gwella rhai ardaloedd o'r gwasanaeth. Nid yw'r cynlluniau personol bob amser ar waith mewn perthynas ag anghenion gofal a nodwyd y bobl, a gall hyn effeithio ar ddealltwriaeth y gweithwyr gofal o anghenion pob unigolyn. Mae'r rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r gwiriadau addasrwydd gofynnol yn cael eu cwblhau cyn i staff newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, ond nid ydynt bob amser yn cwblhau'r hyfforddiant gloywi mewn modd amserol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn hapus ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn. Mae'r staff yn sicrhau bod y bobl yn teimlo eu bod yn cael croeso wrth symud i mewn i'r cartref, a dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi gwneud ffrindiau â phobl eraill sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae cydberthnasau cadarnhaol rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoff o'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi ac yn eu disgrifio fel unigolion “ffeind”, “annwyl” a “chlên”. Gwelsom y gweithwyr gofal a'r rheolwr yn siarad â'r bobl mewn modd parchus a chyfeillgar. Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn cael eu canmol gan y rhai sy'n byw yn y cartref, ac mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad cadarnhaol y bobl o lesiant. Dywedodd y bobl wrthym fod “gofal da yma”, yn ogystal â “gofal ardderchog”.

Caiff rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ei hwyluso a'i hannog. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn dewis eu trefn ddyddiol ac yn penderfynu sut maent am dreulio eu diwrnod. Mae rhai pobl yn mwynhau mynd allan i'r gymuned gyda'u perthnasau, ac mae eraill yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn y cartref. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn parchu dewisiadau unigol y bobl ac yn eu hannog i barhau â'r hobïau y maent yn eu mwynhau. Mae trefniadau ar waith i roi cyfleoedd rheolaidd i'r bobl rannu eu barn am y gwasanaeth ac i gymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â'r broses o lywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref ac mae'n hyrwyddo ymdeimlad y bobl o lesiant. Mae'r cartref yn lân, yn gyfforddus, mewn cyflwr da ac yn gartrefol. Mae'n galluogi'r bobl i fod yn annibynnol cyn hired â phosibl. Mae'r amgylchedd yn ddiogel a chaiff y risgiau i ddiogelwch y bobl eu nodi a'u rheoli. Mae ardal awyr agored ar gael i'r bobl fwynhau treulio amser yn yr awyr agored yng nghanol natur os byddant am wneud hynny.

Caiff y cynlluniau gofal a chymorth eu llunio ar y cyd â'r bobl ac maent yn cynnwys eu barn am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn cynnwys gwybodaeth gyflawn am anghenion y bobl a sut y dylid eu diwallu, ac mae hwn yn faes y mae angen i'r gwasanaeth ei wella. Bydd hyn yn sicrhau bod y gweithwyr gofal bob amser yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y canlyniadau y mae pob unigolyn yn dymuno eu cyflawni a sut y gwneir hyn.

Mae digon o weithwyr gofal ar gael sy'n golygu bod y bobl yn cael gofal a chymorth pan fydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, nid yw'r gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer gweithwyr gofal newydd yn gwbl gadarn ac mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau y caiff yr holl wiriadau gofynnol eu cwblhau.

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr yn eu rolau ac yn teimlo ei fod yn gwrando arnynt yn ystod y cyfarfodydd tîm. Mae hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu hefyd, ond mae angen i nifer o'r gweithwyr gofal ymgymryd â hyfforddiant gloywi. Mae hwn hefyd yn faes o'r gwasanaeth y mae angen ei wella.

## Gofal a Chymorth

Mae trefniadau ar waith i ddeall anghenion gofal a chymorth y bobl fel rhan o'r broses cyn derbyn. Mae dogfennau yn dangos bod y tîm rheoli yn casglu gwybodaeth berthnasol drwy siarad â'r bobl a'u cynrychiolwyr am y cymorth sydd ei angen arnynt a'r canlyniadau y maent am eu cyflawni yn y gwasanaeth. Caiff gwybodaeth ysgrifenedig am anghenion y bobl ei chasglu gan weithwyr proffesiynol sy'n adnabod yr unigolyn. Mae hyn yn golygu bod aelodau'r tîm rheoli yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion unigol y bobl cyn cynnig lle iddynt yn y gwasanaeth.

Yn yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd y cynlluniau personol bob amser yn cofnodi'n fanwl pa gymorth sydd ei angen ar y bobl er mwyn diwallu eu hanghenion. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod cynnydd wedi cael ei wneud, ond mae angen cymryd camau pellach. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cael eu llunio ar y cyd â'r bobl a'u bod yn cofnodi dewisiadau unigol pob unigolyn a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Ond nid ydynt bob amser yn cofnodi'n benodol y cymorth sydd ei angen ar y bobl, na'r ffordd y caiff y risgiau i ddiogelwch y bobl eu rheoli. Dylai'r wybodaeth ysgrifenedig hon fod ar gael i'r gweithwyr gofal bob amser er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r gofal a'r cymorth cywir i bob unigolyn. Gwelsom hefyd nad yw asesiadau risg ar waith bob amser er mwyn cofnodi risgiau hysbys a nodwyd ar gyfer pob unigolyn a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae trefniadau clir ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisi diogelu ar waith, sy'n cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Yn ystod trafodaethau â'r gweithwyr gofal, nodwyd gennym eu bod yn hyderus yn eu rolau ac wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu'r bobl rhag niwed. Mae cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn cyflwyno adroddiadau diogelu i'r awdurdod lleol ac yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Gall y bobl gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei chydnabod fel agwedd bwysig ar hunaniaeth y bobl a'r gymuned leol lle mae'r cartref wedi'i leoli. Gall yr Unigolyn Cyfrifol, aelodau'r tîm rheoli a'r rhan fwyaf o weithwyr gofal siarad Cymraeg, sy’n golygu y gall y bobl fynegi eu barn a'u teimladau yn eu dewis iaith. Dywedodd y bobl wrthym fod hyn yn bwysig iddynt, ac mae'r ddarpariaeth hon yn agwedd gadarnhaol ar y gwasanaeth a ddarperir. Caiff dogfennau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, fel y datganiad o ddiben a'r canllaw i'r gwasanaeth, eu darparu'n ddwyieithog. Ysgrifennir cynlluniau personol y bobl yn eu dewis iaith, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Yr Amgylchedd

Darperir cymorth mewn amgylchedd cartrefol a chyfforddus sy'n annog annibyniaeth. Mae'r cartref gofal wedi cael ei rannu i bedair uned, sy'n creu lleoliad 'cartref o fewn cartref' mwy cyfforddus. Mae pob uned yn cynnwys lolfa a chegin lle gall y bobl helpu eu hunain i ddiodydd a byrbrydau. Mae cyfleusterau bath neu gawod hygyrch ar gael ym mhob uned, a nifer bach o ystafelloedd gwely. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd eu hunain, a gwelsom eu bod yn cynnwys eiddo personol y bobl a'u heitemau pwysig o gartref.

Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da iawn. Gwelsom fod staff cadw tŷ yn cael eu cyflogi i gynnal glendid yr amgylchedd a'r risgiau rheoli heintiau. Dywedodd y staff cadw tŷ wrthym eu bod yn ymdrechu i beidio ag amharu ar arferion y bobl. Gwelsom eu bod yn cyflawni eu tasgau yn ystafelloedd y bobl ar amseroedd sy'n gyfleus i bob unigolyn. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i gwblhau tasgau glanhau a thacluso ysgafn yn eu hystafelloedd eu hunain, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn galluogi'r bobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u hymdeimlad o berchnogaeth dros eu hardal fyw eu hunain.

Mae ardaloedd gerddi diddorol ar gael yn yr awyr agored a gall y bobl eu cyrraedd yn rhwydd. Gwelsom fod y bobl yn gallu cerdded mewn cylch ar hyd llwybr gwastad yr holl ffordd o amgylch ardal awyr agored y cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym fod un person yn mwynhau mynd ar y daith hon, sy'n ymarfer corff iddo, bob dydd. Caiff ardaloedd eistedd a byrddau eu darparu yn yr awyr agored, ac mae parasolau ar gael yn ystod tywydd cynhesach. Gwelsom fod blychau plannu ar lefel uwch ar gael os oedd y bobl yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch yn y cartref eu rheoli'n dda. Dyfarnwyd sgôr o bump i'r gegin (da iawn), yn dilyn arolygiad gan yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Mae gwiriadau ar waith i sicrhau y caiff risgiau i'r bobl yn yr amgylchedd eu nodi, ac mae mesurau priodol ar waith i reoli'r risgiau hysbys. Mae'r cofnodion yn dangos bod systemau diogelwch tân yn bresennol i sicrhau bod y rhagofalon angenrheidiol ar waith os bydd tân. Mae gan bob person gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith, sy'n cofnodi'r cymorth sydd ei angen arno i adael y safle yn ddiogel mewn argyfwng. Caiff cyfarpar nwy a thrydan eu gwasanaethu, a chaiff ansawdd y dŵr ei fonitro fel sy'n ofynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a ddarperir a allai fod yn ddefnyddiol wrth benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas iddynt. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd y canllaw i'r gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn ac roedd y canllaw yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Mae Datganiad o Ddiben y darparwr yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn ac mae'n disgrifio sut yr eir i'r afael â nhw. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt â'r rheolwr. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u gwneud yn ddiweddar mewn perthynas â'r gwasanaeth.

Ni chaiff gwiriadau addasrwydd eu cwblhau'n llawn cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth, ac mae angen rhoi sylw i hyn. Gwelsom fod y rhan fwyaf, ond din pob un, o'r gwiriadau gofynnol yn cael eu cwblhau fel rhan o'r broses cyn cyflogi sydd ar waith, a gallai hyn greu risg bosibl i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Yn yr arolygiad blaenorol, gwelsom fod y gweithwyr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol, ond eu bod angen ymgymryd â'r hyfforddiant gloywi. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom edrych ar ddogfennau hyfforddiant a gwelsom fod cynnydd wedi cael ei wneud, ond mae angen cymryd camau pellach o hyd. Mae hyn i sicrhau bod y gweithwyr gofal yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf a'r sgiliau i lywio'r ffordd y maent yn cefnogi'r bobl sy'n byw yn y cartref. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae gwiriadau cyn cyflogi a hyfforddiant yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae digon o staff gofal er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth ar yr adeg gywir. Dywedodd y bobl wrthym yr eir i'r afael â'u ceisiadau am gymorth yn brydlon a gwelsom y gweithwyr gofal yn gweithio'n galed i ymateb i glychau galw mewn modd amserol. Defnyddir staff asiantaeth pan fo angen er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio yn ddigonol, a chaiff yr un aelodau o'r staff asiantaeth eu darparu er mwyn sicrhau cysondeb. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym ei bod yn hawdd mynd at y rheolwr a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Mae'r darparwr yn mesur pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rhedeg yn rheolaidd a gofynnir i'r bobl am eu barn am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae adroddiadau yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn casglu adborth gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'r staff sy'n gweithio yno. Caiff cyfarfodydd staff a chyfarfodydd i breswylwyr eu cynnal yn rheolaidd hefyd, ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r bobl rannu eu safbwyntiau am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal yn cael eu cynnal ac mae adroddiadau ar gael sy'n cofnodi eu canfyddiadau ynghylch y ffordd y gellir gwella'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Fel rhan o'r gwiriadau addasrwydd cyn cyflogi a gynhelir, dylid cael dau eirda ar gyfer pob aelod newydd o staff. Sicrhau bod dau eirda yn cael eu casglu ar gyfer cyflogeion newydd fel rhan o'r gwiriadau cyn cyflogi a gynhelir. | Newydd |
| 15 | Wrth gael eu derbyn i'r gwasanaeth, nid yw cynlluniau personol y bobl bob amser yn cynnwys cofnod clir o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o ran eu gofal personol. Sicrhau bod gan y bobl gynlluniau personol cynhwysfawr a manwl ar waith mewn perthynas â'u holl anghenion gofal a chymorth. | Heb Gyflawni |
| 36 | Nid yw'r staff wedi cael hyfforddiant gloywi gorfodol. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi pan fo angen. | Heb Gyflawni |
| 19 | Nid yw'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Cyflawnwyd |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/09/2024